


# LLYTHYR YR ESGOB GWANWYN 2017 BISHOP'S LETTER SPRING 2017



OS AGORI DI FY LLYGAID,  
I GAEL GWELD Y CARIAD LLAWN,  
LIFODD ALLAN FEL Y MOROEDD,  
AR Galfaria un prynhawn,  
TI GEI'R CWBL,  
RODDAIST I MI YN FY RHAN.

*Ail bennill yr emyn "Arnat, Iesu, boed fy meddwl"*  
gan William Williams, Pantycelyn (1717-1791)

WERE THE WHOLE REALM OF NATURE MINE,  
THAT WERE AN OFFERING FAR TOO SMALL;  
LOVE SO AMAZING, SO DIVINE,  
DEMANDS MY SOUL, MY LIFE, MY ALL.

*The last verse of the hymn "When I survey the wondrous cross"*  
by Isaac Watts (1674-1748)



Esgobaeth  
Bangor  
The Diocese  
of Bangor

Yr Eglwys yng Nghymru  
The Church in Wales



## Annwyl gyfeillion

### CYFARCHION YN ENW DUW EIN TAD A'N HARGLWYDD IESU GRIST.

Croeso i'r llythyr cyntaf hwn mewn cyfres o fyfyrddodau ynghylch ein bywyd fel esgobaeth. Fy mwriad yw ysgrifennu atoch yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod pawb ohonom yn ymwybodol o'r datblygiadau allweddol sy'n digwydd yn ein bywyd cyffredin fel esgobaeth ac i'n cynorthwyo i gynnal ein gilydd mewn gweddi ar adeg o newid, sialens a gobaith.

Ysgrifennaf atoch ar ddechrau'r Grawys, wrth i ni droi ein golygon unwaith eto tuag at Groes Crist. Yn ei emyn enwog, mae William Williams yn ymateb i gariad anhraethol Duw ar Galfaria drwy addo'r cyfan iddo. Mae'r ysgogiad hwnnw i i gysegru'n holl fywydau i Grist yr un mor fyw a dilys i ni heddiw ag ydoedd ar gyfer Mair a Ioan wrth iddynt sefyll wrth droed y Groes ar y Dydd Gwener y Groglyth cyntaf hwnnw. Mae'r un mor fyw a dilys i ni heddiw ag ydoedd ar gyfer Deiniol, Cybi, Seiriol, Tudwen, Madryn a'r holl seintiau Celtaidd dirifedi hynny a sefydlodd gymunedau mawl a gweddi ledled ein hesgobaeth ganrifoedd lawer yn ôl.

Nid yw'n ddim llai na'r alwad oesol i ni oll ddilyn Crist drwy **addoli Duw, tyfu'r Eglwys a charu'r byd** – a gwneud y pethau hynny â'r cyfan o'n heneidiau a'n bywydau.

Wrth i ni fyfyrrio ar ein bywyd cyffredin fel esgobaeth, daethom i'r casgliad mai'r tri galwad syml hyn – i addoli Duw, i dyfu'r Eglwys ac i garu'r byd – a ddylai fod yn dair prif egwyddor ein hesgobaeth. Mae llawer o'r hyn sy'n dilyn yn seiliedig ar y tair egwyddor hynny, gan gynnwys ein blaenoriaethau mwy ymarferol a'n gwaith i sefydlu'n hamcaniau neu'n cynlluniau.

Maent oll yn dibynnu ar y tair egwyddor rydym wedi'u cydnabod fel galwad Duw ar gyfer yr esgobaeth heddiw ac yn cael eu harwain ganddynt. Ac oherwydd i ni ymgynghori'n eang ac yn drylwyr, gallwn gamu ymlaen yn fwy hyderus fyth, gan i feddyliau lawer gyfrannu at ffurfio'r weledigaeth rydym wedi ymrwymo iddi.

Fe'm calonogir yn fawr gan lawer o'r hyn a welaf yn yr esgobaeth, hyd yn oed yn y dyddiau heriol hyn. Rwy'n cael fy nghalonogi, nid oherwydd ein bod yn gweld arwyddion eto o dwf rhyfeddol neu oherwydd bod bywyd yr Eglwys yn ffynnu ym mhobman, ond oherwydd i lawer o Ardaloedd Gweinidogaeth ymgysgru i wneud y pethau iawn. Y cwestiwn sydd angen i ni ei ofyn ar yr adeg hon yn ein bywyd fel esgobaeth yw nid 'A yw'r cynllun yn gweithio?' ond yn hytrach 'A ydym ninnau'n rhoi'r cynllun ar waith?'

Er mwyn sicrhau bod gan yr Ardaloedd Gweinidogaeth y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ddirnad ac i gynllunio'r ffordd ymlaen rwy'n falch iawn ein bod wedi gallu penodi pobl i sawl swydd allweddol o fewn y tîm sy'n gweithio o Dŷ Deiniol ym Mangor, ond gan wasanaethu'r esgobaeth gyfan.

## Dear friends

### GREETINGS IN THE NAME OF GOD OUR FATHER AND OF OUR LORD JESUS CHRIST.

Welcome to this first letter in a series of reflections about our life as a diocese. My intention is to write to you on a regular basis to ensure that we all share in the key developments that are taking place in our common life as a diocese, and to help us to uphold one another in prayer at a time of change, challenge and hope.

I write to you at the beginning of Lent, as our gaze turns again towards the Cross of Christ. In his famous hymn, Isaac Watts conceives of the "wondrous Cross" as a sign and symbol of a divine love that "demands my soul, my life, my all." This demand to dedicate our whole lives to Christ is as alive and real for us today as it was for Mary and John as they stood at the foot of the Cross on that first Good Friday; it's as alive and real for us today as it was for Deiniol, Cybi, Seiriol, Tudwen, Madryn and all those countless Celtic saints who established communities of worship and prayer across our diocese many centuries ago.

It is nothing less than the ageless demand to follow Christ by **worshipping God, growing the Church, and loving the world** – and to do these three things with "my soul, my life my all."

As we have reflected together on our common life as a diocese, we have concluded that these three simple demands – to worship God, to grow the Church, and to love the world – should be our key diocesan principles.

Much of what follows is built on these three principles, including our more concrete priorities and our work to establish our platforms or plans. They all rely upon and take their cue from the three principles we have discerned as being the call of God to the diocese at this time. And because our process of consultation has been extensive and robust, our confidence is stronger still, because many minds have shaped the vision which we have articulated.

I am enormously heartened by much of what I see in the diocese, even if these times are challenging. I am heartened not because we see signs yet of unstoppable growth or that Church life is flourishing everywhere, but because many Ministry Areas have committed themselves to doing the right things. The question we need to be asking at this stage of our life is not 'Is the plan working?' but rather 'Are we working the plan?'

To ensure that Ministry Areas have the support they need in the process of discernment and planning, I'm delighted we have been able to several key appointments to the team that is based at Tŷ Deiniol in Bangor but serves the whole diocese.

**NID YW'N DDIM LLAI NA'R ALWAD OESOL I NI OLL DDILYN CRIST DRWY ADDOLI DUW, TYFU'R EGLWYS A CHARU'R BYD.**

**IT IS NOTHING LESS THAN THE AGELESS DEMAND TO FOLLOW CHRIST BY WORSHIPPING GOD, GROWING THE CHURCH, AND LOVING THE WORLD.**

Yn y misoedd diwethaf, rydym wedi penodi / In recent months we have appointed:



**DOMINIC MCCLEAN**  
Cyfarwyddwr  
Meithrin Disgyblion  
a Galwedigaethau  
Director of Discipleship  
& Vocations

Mae Dominic yn cynorthwyo Ardaloedd Gweinidogaeth i ddirnad pobl newydd sydd wedi'u galw i'r weinidogaeth ordeiniedig ac i ddatblygu gweinidogaethau lleyg sydd wedi'u trwyddedu a'u comisiynu. Mae Dominic yn ymgymryd â'i swydd gyda chyfoeth o brofiad. Rwyf wrth fy modd o weld y cynnydd sy'n digwydd ledled yr esgobaeth o safbwynt datblygu timau gweinidogaethol wedi'u comisiynu, ac yn arbennig Timau Ymweld Bugeiliol a Thimau Arwain Addoliad. Mae Dominic yn byw ym Machynlleth ac mae'n aelod o dîm Ardal Gweinidogaeth Bro Cyfeiliog a Mawddwy.

Dominic supports Ministry Areas in discerning new vocations to ordained ministry and developing licensed and commissioned lay ministries. Dominic brings a wealth of experience to the role, and I'm delighted with the progress being made across the diocese in the development of commissioned ministry teams, particularly Pastoral Visiting and Worship Leading teams. Dominic lives in Machynlleth and is a member of the Bro Cyfeiliog a Mawddwy Ministry Area team.



**ANEST GRAY FRAZER**  
Cyfarwyddwr Addysg  
ac Ymgysylltu  
Director of Education  
& Engagement

Mae Anest yn arwain ein hymdrechion i ddatblygu gweinidogaeth gyda Phlant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ynghyd ag ymgysylltu ag ysgolion ledled yr esgobaeth. Bu Anest yn gweithio mewn uwch swyddi arweinyl gyda gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau plant ledled Cymru, ac mae'n dod atom gyda brwdfrydedd mawr dros ymgysylltu â phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae Anest yn Warden Ardal Gweinidogaeth ym Mro Cadwaladr, ac felly mae ganddi brofiad uniongyrchol o heriau ceisio denu pobl iau i'n heglwysi.

Anest is leading our efforts in developing ministry to Children, Youth and Families and engagement with schools across the diocese. Anest has held senior leadership roles in social work and children's services across Wales, and brings to the role a passion for engaging with young people and their families. Anest is a Ministry Area Warden in Bro Cadwaladr, and so brings first-hand experience of the challenges of attracting a younger demographic to our churches.



**PHILIP DAVIES**  
Cyfarwyddwr Addysg  
ac Ymgysylltu  
Director of Planning  
& Development

Mae Philip yn cydweithio ag Ardaloedd Gweinidogaeth i gynorthwyo gyda llunio Cynlluniau Datblygu Cenhadaeth a Chynlluniau Datblygu Eiddo a chyda rheoli prosiectau datblygu mawr. Magwyd Philip yng Nghricieth ac mae'n Warden Eglwys mewn eglwys fawr yn Llundain, lle mae hefyd yn aelod o'r Tîm Gweinidogaeth. Mae hynny, ynghyd â'i brofiad o fod yn aelod o fwrdd cwmni technoleg byd eang, yn golygu ei fod yn meddu ar gronfa wych o sgiliau ar gyfer cynorthwyo'r Ardaloedd Gweinidogaeth gyda'u gwaith cynllunio ar gyfer datblygu.

Philip works alongside Ministry Areas to provide support in preparing Mission and Property Development Plans, and the management of larger development projects. Philip was brought up in Criccieth and is Churchwarden of a large London church, where he is also a member of the Ministry Team. This, coupled with his experience of sitting on the board of a global technology company, gives him a well-rounded skillset to support Ministry Areas in their development planning work.



**OWAIN PRITCHARD**  
Fundraising and  
Stewardship Officer  
Fundraising and  
Stewardship Officer

Mae Owain yn gweithio gyda'r Ardaloedd Gweinidogaeth ar fireinio eu prosesau gweinyddol ariannol ac ar baratoi Cynlluniau Datblygu Cyllid, sy'n waith hollbwysig os ydym am allu cynllunio'n hyderus ac yn gyfrifol. Daeth Owain atom o Lyfrgell Genedlaethol Cymru, lle bu'n gweithio fel Rheolwr Gweithrediadau. Mae'n byw yn Abermaw ac mae'n Drysorydd yn Ardal Weinidogaeth Bro Ardudwy, felly mae ganddo brofiad uniongyrchol o'r heriau ariannol a gweithredol mae'r Ardaloedd Gweinidogaeth yn eu hwynebu.

Owain is working with Ministry Areas on streamlining financial administration processes and preparing Finance Development Plans – crucial work if we are to be able to plan confidently and responsibly. Owain joined us from the National Library of Wales where he served as Operations Manager. He lives in Barmouth and is Treasurer in the Bro Ardudwy Ministry Area, and so brings first-hand experience of the financial and operational challenges faced by Ministry Areas.

Mae'r penodiadau newydd hyn yn ychwanegu at y cyfoeth o doniau sydd yn nhîm Tŷ Deiniol ac rwyf yn hyderus y bydd y doniau hynny, ynghyd â brwdfrydedd aelodau'r tîm dros genhadaeth yr Eglwys, yn dwyn ffrwyth lawer yn ystod y misoedd nesaf.

These new appointments augment the wealth of talent within the Tŷ Deiniol team, and I'm confident that this talent, coupled with team members' passion for the mission of the Church, will bear much fruit in the months to come.

Bydd rhai pobl yn gofyn o ble y daw'r arian ar gyfer y fath fuddsoddi ac a allwn ei fforddio?

Gellir ateb y cwestiwn mewn sawl ffordd. Mae yna ateb cyllidol technegol. Fel y gŵyr llawer ohonoch, mae'r apwyntiadau hyn a'n holl fentrau a gweithgareddau 'canolog' fel esgobaeth yn cael eu hariannu o'n buddsoddiadau esgobaethol canolog ac o'r incwm a dderbyniwn o asedau cenedlaethol hanesyddol yr Eglwys yng Nghymru. Mae hynny'n golygu ein bod yn gallu ariannu swyddi newydd fel y rhain heb orfod dibynnu ar y cyllid mae eglwysi ac Ardaloedd Gweinidogaethol yn ei gyfrannu i Gronfa Gweinidogaeth yr Esgob, gan mai ond i dalu costau gweinidogaeth leyg ac ordeiniedig rheng flaen y defnyddir y gronfa honno.

Gellid ymateb hefyd ar sail ein sicrwydd na allwn bellach gyllido ar gyfer yr hyn a elwir yn aml yn 'ddiwrnod glawog'.

**A dyna'r elfen bwysicaf oll, wrth gwrs: gweddi. Mae llawer o wir yn yr hen egwyddor: heb weddi, ni allwn ni, heb weddi, ni fyn Duw.**

Yng Ngweddi'r Arglwydd, rydym yn efn am ddyfodiad y Deyrnas ac yn nodi'n dibyniaeth ar Dduw am hyd yn oed ein bara beunyddiol. Mae hynny'n ein hatgoffa mai Duw yw rhoddwr popeth da ac mai ef yw ffynhonnell ein bywyd. Unwaith eto y Grawys hwn bydd gennym gyfle i ddyfnhau'n ffydd a'n hymddiriedaeth yn amcanion da Duw ar ein cyfer.

Ar y nodyn hwnnw, dymunaf i chi oll ras a thangnefedd, gan ddiolch i chi am eich gwaith a'ch gwasanaeth. Gwerthfawrogir yn fawr y cyfan a wnewch.

Yn Nuw

Mae'r diwrnod hwnnw yma bellach a'n hymrwymiad ar sail yr efengyl – fel esgobaeth, Ardaloedd Gweinidogaeth ac eglwysi – ddylai fod i hau'r had yn helaeth, fel yr heuwr yn y damhegion, fel y gall y cynhaeaf fod yn doreithiog. Heddiw yw'r adeg i ni oll ddefnyddio'n hadnoddau, nad ydynt yn ddi-ben-draw ond sy'n helaeth serch hynny, er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Nod yr holl benodiadau hyn i'r tîm newydd yn Nhŷ Deiniol newydd yw ein cynorthwyo ni mewn Ardaloedd Gweinidogaeth i gerdded yn ffyddlon y llwybr rydym wedi ymrwmo i'w ddilyn. Ni fuom erioed gymaint o ddifrif nac mor rhagweithiol a sicr ein bwriad yn y ffordd rydym yn cynllunio i dyfu a dod yn esgobaeth ffyniannus. Drwy ras Duw a thrwy ein gweddïau ninnau, credaf mai dyna fydd ein profiad.

There are of course some who will ask where the finance for such investment comes from and whether we can afford it?

There are lots of ways to respond to this. There is a technical financial answer. As many of you will be aware, these appointments and all of our "central" initiatives and activities as a diocese are funded from our central diocesan investments and by the income we receive from the national historic assets of the Church in Wales. This means that we're able to fund new posts such as these without relying on the funds contributed by churches and Ministry Areas to the Bishop's Ministry Fund, because that fund is only used to meet the costs of front-line lay and ordained ministry.

Another response is rooted in our conviction that we can no longer budget for what we commonly call the 'rainy day'.

**This of course is the most important part of all: prayer. The old saying still has much about it – without prayer we cannot, without prayer God will not.**

In the Lord's Prayer we seek the coming of the Kingdom and mark our dependence upon God for even our daily bread. This reminds us that God is the giver of all good things and the source of our life. Once again this Lent we will have an opportunity to deepen faith and trust in God's good purposes for us.

On that note may I wish you all grace and peace and thank you all for your work and service which is greatly appreciated.

In God



**Y Gwir Barchg Andy John**  
Esgob Bangor

**The Rt Revd Andy John**  
Bishop of Bangor

**MAE LLAWER O WIR YN YR HEN EGWYDDOR: HEB WEDDI, NI ALLWN NI, HEB WEDDI, NI FYN DUW.**

**THE OLD SAYING STILL HAS MUCH ABOUT IT – WITHOUT PRAYER WE CANNOT, WITHOUT PRAYER GOD WILL NOT.**